Adroddiad Cyfarfod 09:01:19
Gwen Davies - Iechyd y llygad – Cymru a'r trydydd byd

Croesawyd pawb i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd gan ein llywydd Gwenan Roberts. Cydymdeimlodd â Gwyneth Jones Caerhun ac Eva Thomas yn eu profedigaeth o golli aelod o'r teulu. Ein gwraig wadd oedd yr optegydd Gwen Davies ddaeth atom i son am Iechyd y Llygaid. Gan ddefnyddio cyflwyniad penodol gan Gymdeithas Optegwyr Prydain – cyflwyniad oedd Gwen ei hun wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg – amlinellodd y cyflyrau all effeithio ar iechyd y llygad ac achosi problemau gweld. Nododd y gwahanol driniaethau sydd ar gael i wella'r diffygion, yn ogystal ag ychydig gynghorion all pob un ohonom yn bersonol ddilyn i amddiffyn ein golwg. Yn ogystal a'i gwaith fel optegydd yng Nghaernarfon a Chaergybi mae Gwen hefyd yn brysur gyda'r elusen Vision Aid sy'n gweithio yn bennaf mewn rhannau o Affrica, yn lleddfu problemau llygad y trigolion na fedr fforddio triniaethau nac hyd yn oed bâr o sbectol. Bydd yn rhedeg marathon Llundain ym mis Mai i godi arian at yr achos teilwng hwn, a dymunwn yn dda iawn iddi .

Diolchwyd i Gwen yn gynnes gan Gwyneth Jones Fachell. Mair Read oedd yn gyfrifol am y baned ac enillwyd y raffl gan Eleri Warrington. Tro nesaf nos fercher Chwefror 13eg edrychwn ymlaen at gwmni Morfudd Thomas fydd yn siarad am grwydro Nepal. Hefyd ar y noson gofynnir i'r aelodau ddychwelyd y ffurflen gyda'u dewis o fwydlen cinio Gwyl Ddewi Pant Du, ynghyd â'r tâl wrth gwrs.